Dyddiad: 18 Chwefror 2026

Annwyl

**Cwyn mewn perthynas â ATISN 26354 Yr Iaith Gymraeg – hysbyseb gan Cadw**

Yn dilyn eich cwyn mewn perthynas ag ATSIN 26354, rwyf bellach wedi cwblhau fy adolygiad o'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'r wybodaeth sydd yn nwylo Cadw.

Gallaf gadarnhau nad oes unrhyw gofnodion o unrhyw ohebiaeth rhwng Cadw ac adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru ynglŷn â dyluniad yr hysbyseb, gan gynnwys ei gynllun, ffontiau, na’r defnydd o liw. Rhyddhawyd yr unig neges e-bost yn ymwneud â'r hysbyseb hon i chi fel rhan o'r ymateb gwreiddiol.

Datblygodd Cadw ei ganllawiau dylunio brand yn 2020. Cynhyrchwyd yr hysbyseb dan sylw yn unol â'r canllawiau hyn. Mae darn sy'n ymdrin â theipograffeg a lliw wedi'i amgáu yn Atodiad 1. Gan fod y darn hwn yn rhan o ddogfen fewnol, dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Adolygwyd y gwaith dylunio ar gyfer yr hysbyseb o safbwynt hygyrchedd. Gallaf gadarnhau ei bod yn bodloni safonau WCAG AA, gyda chymhareb cyferbyniad o 6:1 neu uwch, sy'n cyd-fynd yn llawn â'n meini prawf hygyrchedd digidol.

Ar ôl derbyn eich cais Rhyddid Gwybodaeth cychwynnol, fe wnaeth Cadw adolygu'r hysbyseb gyda Thîm Cyfathrebu Strategol Llywodraeth Cymru i gadarnhau cydymffurfiaeth. Cafwyd cyngor ganddynt fod y ddwy iaith yn cydymffurfio â chanllawiau Cadw a'u bod yn cael eu trin yn gyfartal.

Yn ystod yr adolygiad hwn, nodais un gŵyn hanesyddol (o 2017) yn ymwneud â maint y ffont a ddefnyddir mewn hysbysebion. Ers hynny, mae canllawiau brand Cadw wedi'u datblygu a bellach yn llywio holl ddyluniad a gwaith celf Cadw.

Roedd yr ymateb cychwynnol i'ch cais Rhyddid Gwybodaeth yn dehongli bod y cais yn ymwneud yn benodol â gwaith dylunio Cadw a'r defnydd o liwiau hysbysebu. Fodd bynnag, roedd eich neges e-bost ar 9 Chwefror yn dweud bod eich cais yn berthnasol i Lywodraeth Cymru gyfan, nid Cadw yn unig. Roedd yn rhesymol i swyddog Cadw

ddehongli'r cais cychwynnol fel un sy'n ymwneud â Cadw gan fod y cais Rhyddid Gwybodaeth yn cyfeirio at hysbyseb swydd Cadw. Bydd angen prosesu'r cais ehangach hwn fel un Rhyddid Gwybodaeth newydd. Mae'r cais newydd am 'Unrhyw wybodaeth sydd gennych am unrhyw waith dylunio blaenorol a wnaed i sicrhau bod gan y ddwy iaith yr un cyferbyniad ac nad yw siaradwyr Cymraeg dan anfantais oherwydd y defnydd o liwiau. Ac unrhyw gwynion blaenorol a dderbyniwyd ynglŷn â'r defnydd o liwiau mewn hysbysebion’. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech gadarnhau eich cais i rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru i wneud yn siŵr ei fod yn mynd i'r adran gywir.

Er bod yr adolygiad hwn wedi cadarnhau bod yr hysbyseb yn cyd-fynd â'r canllawiau, mae'n bwysig i Cadw ein bod ni'n hyrwyddo'r Gymraeg yn llawn. Rydym felly yn ddiolchgar i chi am godi'r cwestiwn gyda ni ynghylch a yw'r lliwiau a ddefnyddir yn yr hysbyseb hon yn anfwriadol yn llai clir i ddarllenwyr Cymraeg. Nid dyna yw ein bwriad. Bydd ein Pennaeth Profiad Ymwelwyr a Datblygu Busnes yn ystyried a oes modd gwneud gwelliannau i'r canllawiau brand a’r palet lliwiau.

Rwyf wedi ystyried eich cwyn yn unol â'r weithdrefn a amlinellwyd yng Nghanllaw ymarferol Llywodraeth Cymru ar wneud ceisiadau am wybodaeth sydd ar gael drwy'r post ar gais neu ar y rhyngrwyd.

Os ydych yn parhau'n anfodlon â'r ateb hwn, mae gennych hawl i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner’s Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Yn gywir

Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru / Welsh Government